

## Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Yr oriau a weithiwyd

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi defnyddio methodoleg rheoli datgelu ystadegol newydd ar gyfer Cyfrifiad 2021. O ganlyniad, ni fydd ffigurau a grëir drwy grynhai daearyddiaethau lefel is yn cyfateb i ffigurau a ryddhawyd ar gyfer daearyddiaethau uwch. Nid yw'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn argymhell cydgrynhai daearyddiaethau lefel is i greu daearyddiaethau uwch.

Yr oriau a weithiwyd	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
<b>Yr holl breswylwyr arferol rhwng 16 a 74 oed a oedd mewn gwaith yr wythnos cyn y Cyfrifiad Amser Llawn</b>	80,680		81,951		1,363,615		1,368,451		26,526,336		27,773,665	
Gweithio rhwng 31 a 48 awr	44,798	55.5%	46,871	57.2%	790,605	58.0%	818,788	59.8%	15,293,318	57.7%	16,427,651	59.1%
Gweithio 49 awr neu fwy	11,746	14.6%	10,302	12.6%	161,437	11.8%	140,097	10.2%	3,514,362	13.2%	3,065,010	11.0%
<b>Rhan-amser</b>												
Gweithio 15 awr neu lai	6,932	8.6%	7,197	8.8%	125,060	9.2%	123,617	9.0%	2,543,578	9.6%	2,855,066	10.3%
Gweithio rhwng 16 a 30 awr	17,204	21.3%	17,581	21.5%	286,513	21.0%	285,949	20.9%	5,175,078	19.5%	5,425,938	19.5%

### Dadansoddiad:

- Mae cyfran y bobl sy'n gweithio'n llawn amser yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng ychydig i 69.8% o gymharu â 70.1% yn flaenorol, tra bod Cymru, a Lloegr a Chymru wedi aros yn gyson.
- Mae gweithwyr llawn amser bellach yn gweithio llai o oriau yn Sir Gaerfyrddin, Cymru ac yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae cyfran uwch o bobl Sir Gaerfyrddin yn gweithio dros 49 awr o gymharu â ffigurau cenedlaethol.
- Mae cyfran ychydig yn uwch o bobl yn Sir Gaerfyrddin yn gweithio'n rhan amser o gymharu â ffigurau cenedlaethol.

### Diffiniad:

- Mae nifer yr oriau a weithiwyd yr wythnos cyn y cyfrifiad yn cynnwys goramser cyflogedig a di-dâl. Mae hyn yn cynnwys prif swydd unrhyw un 16 oed a throsodd.